**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 23 Tachwedd 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Emanuel | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J Smith |
| Y Cynghorydd L A Tomkinson | Y Cynghorydd R Williams |

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Howard, Senior Planning Officer
Mr O Griffiths, Rheolwr Materion Perygl Llifogydd, Dŵr a Thomenni

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd J Edwards |

**133 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Dennis.

**134 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

**135 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn

nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**136 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**137 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei thrafod mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**138 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 19/10/23 yn rhai cywir.

**139 CAIS RHIF: 23/0679**

**Newid defnydd o lety gwely a brecwast i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 30/08/2023) TŶ LLETY CENTRAL HOUSE, BRYN STOW, TREFFOREST, PONTYPRIDD, CF37 1RZ**

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gohirio'r penderfyniad i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol a hynny er mwyn rhoi cyfle i swyddogion ddarparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r storfa finiau a maint yr ystafelloedd fel bod modd mynd i'r afael â'r pryderon o ran gorddatblygu.

**140 CAIS RHIF: 22/1378/15**

**Amrywio Amod 1 o ganiatâd cynllunio rhif 15/1635/10 – ymestyn y terfyn amser ar gyfer cychwyn y gwaith datblygu am flwyddyn ychwanegol (Nodyn Gwybodaeth Draenio 10/02/23 Diwygiad 2 – 10/07/23, derbyniwyd 16/06/23) Fferm Llwyncelyn, Lôn Hafod, Porth, CF39 9UE**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

Mr M Todd-Jones (Asiant)
Mr P Thomas (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd modd i Mr M Popham (Ymgeisydd), a oedd wedi

gofyn am gael annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais, wneud hynny o ganlyniad i broblemau technegol.

Arferodd yr Asiant, Mr M Todd-Jones, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth hir ac ar ôl i'r Pennaeth Rheoli Asedau Isadeiledd a'r Rheolwr Materion Perygl Llifogydd, Dŵr a Thomenni ymateb i gwestiynau gan Aelodau mewn perthynas â sefydlogrwydd a'r system ddraenio, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**141 CAIS RHIF: 23/0007**

**Atgyweirio ac ailadeiladu ffermdy. (Derbyniwyd Asesiad Risg Mwyngloddio ac Adroddiad Strwythurol ar 20/09/23) FFERM GARTH HALL, FFORDD YN ARWAIN AT FFERM GARTH HALL, COED-ELÁI, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8HJ**

**Nodyn** Ar yr adeg yma, roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Tomkinson wedi datgan buddiant personol mewn perthynas â'r cais yma:
"Rydw i'n adnabod un o'r siaradwyr cyhoeddus - mae'r unigolyn yn gyn-aelod o'm teulu.")

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

Ms H Edmunds (Ymgeisydd)
Ms L Bryan (Cefnogwr)
Ms L Clee (Cefnogwr)

Nododd y Pwyllgor fod y siaradwyr cyhoeddus canlynol, a oedd wedi gwneud cais i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais, ddim yn bresennol i wneud hynny:

Mr J Edmunds (Cefnogwr)

Ms E Lewis (Cefnogwr)

Ms J Maunder (Cefnogwr)

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**142 CAIS RHIF: 23/0933**

**Creu tair llain i Deithwyr, gan gynnwys un carafán sefydlog, carafán deithio ac ystafell ddydd/amlbwrpas ar bob llain, ardal arwyneb solet, ffens bren o**

**gwmpas yr ymyl a sefydlu gwaith trin. STABLAU TWELVE OAKS, HEOL LLANHARI, LLANHARI, CF72 9LY**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr A Vaughan-Harries (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes o'r bleidlais gan nad oedd e'n bresennol ar gyfer yr holl ddadl.)

**143 CAIS RHIF: 23/0905**

**Cais ôl-weithredol i ddymchwel garej/sied a gosod sied a garej parod yn ei lle, ynghyd â ffens ymyl plu 1800mm o uchder. 16 RHES Y BEDYDDWYR, BLAENLLECHAU, GLYNRHEDYNOG, CF43 4NY**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

Mr R Cameron (Cefnogwr)
Mr D Hutchison (Cefnogwr)

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**144 CAIS RHIF: 22/0823**

**Gosod tŵr dellt 35 metr gyda 3 antena, 2 dysgl lloeren, 1 cwpwrdd offer, 1 cwpwrdd mesurydd a gwaith cysylltiedig, gan gynnwys generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, cwrt â ffens ar gyfer y prosiect Rhwydwaith Gwledig a Rennir ar ran Cornerstone (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 25/05/2023 ac Asesiad Ecolegol ar 05/10/2023) TIR AR GOEDWIGAETH RHIGOS, FFORDD Y RHIGOS, RHIGOS, ABERDÂR**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr J Dodd (Asiant). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**145 CAIS RHIF: 19/1258**

**Cais materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer ysgol gynradd newydd ac isadeiledd cysylltiedig, gan gynnwys mynediad a thirlunio (cyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol (hybrid) 10/0845/34). (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 30 Medi 2021, 5 Ebrill 2022; derbyniwyd gwybodaeth ecolegol ddiwygiedig ar 22 Mehefin 2023, 9 Hydref 2023) TIR**

**AR YR HEN SAFLE GLO, LLANILID**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**146 CAIS RHIF: 23/0994**

**Fferm solar, gan gynnwys paneli solar ar y ddaear, is-orsafoedd, gwrthdroyddion, traciau mynediad, ffensys diogelwch a gwifren breifat. TIR YN HEN LOFA COED-ELÁI, ODDI AR YR A4119, COED-ELÁI.**

**(**Nodwch: Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams y cyfarfod, ac ni ddychwelodd.)

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**147 CAIS RHIF: 23/0712/10**

**Cynnig i newid defnydd yr eiddo i Gartref Preswyl i Blant, 142 STRYD KENRY, TONYPANDY, CF40 1DD**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 19 Hydref 2023, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad Swyddogion. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais, a hynny'n groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, oherwydd y rhesymau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad pellach.

**148 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd, Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 30/10/2023 – 10/11/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.35 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**